



Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN  
[SeneddDGCh@senedd.cymru](mailto:SeneddDGCh@senedd.cymru)

26 Mehefin 2020

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor

## Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon

Diolch ichi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad uchod. Mae fy sylwadau yn canolbwyntio ar effaith rheoli'r achosion o Covid-19 ar y Gymraeg a hynny yn rhinwedd fy swyddogaeth yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth gwrs, mae'n anodd rhagweld ar hyn o bryd beth yn union fydd goblygiadau'r cyfnod cythryblus hwn yn yr hirdymor, ac rwy'n siŵr y byddwn yn parhau i ddysgu a thrafod yr effeithiau am amser hir eto. Dyma geisio felly gyflwyno fy argraffiadau cychwynnol gan nodi ei bod yn bosibl y byddaf yn rhannu rhagor o wybodaeth â chi wrth i'r sefyllfa fynd rhagddi a chan gydnabod, hyd yn oed wrth inni baratoi'r ymateb hwn fod y sefyllfa yn newid yn ddyddiol.

Cyfyngaf fy ymateb i effaith rheoli'r feirws ar y Gymraeg o fewn y meysydd y cyfeiriwch atynt yn eich cais am dystiolaeth sef diwylliant a'r diwydiannau creadigol; treftadaeth; y cyfryngau cenedlaethol a chymunedol; newyddiaduraeth; a chwaraeon ar lefel lawr gwlad ac elitaidd. Er hynny, dylwn nodi fy mod yn bryderus ei bod yn bosibl y bydd effaith rheoli'r achosion o Covid-19 yn cael effaith ehangach a mwy tymor hir ar y Gymraeg mewn nifer o feysydd y tu hwnt i'r meysydd uchod yn unig. Gyda hynny mewn golwg, gan fod y Gymraeg yn fater sy'n rhan o gyloch gwaith ehangach y Pwyllgor, gofynnaf ichi ystyried cynnal ymchwiliad i ystyried effaith yr argyfwng ar y Gymraeg a sut y byddai modd lliniaru'r effeithiau hynny.

Mae *Strategaeth Cymraeg 2050*<sup>1</sup> yn tynnu sylw at y berthynas rhwng y Gymraeg a diwylliant gan nodi pa mor aml haenog yw'r berthynas honno:

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg>

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
post@comisiynyddygyymraeg.cymru  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.wales  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



*Mae'r berthynas rhwng iaith a diwylliant yn un gymhleth ac amlweddol. Mae'r un peth yn wir yn achos y Gymraeg. Mae diwylliant yn ganolog i'n cymdeithas a'n hunaniaeth, a'n hymdeimlad o fod yn genedl. Mae diwylliant yn grymuso, gan ddod â hyder, sgiliau a chyflogadwyedd, sydd oll yn greiddiol i'r strategaeth hon. Mae hefyd yn gynyddol bwysig i fywyd cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys ein heconomi, iechyd, addysg ac adfywio. Mae angen dathlu ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol a'i harneisio i hybu ffyniant.*

Mae cyfleoedd i gymdeithasu yn y Gymraeg mewn digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon yn greiddiol i'w hyfywedd ac i hyder pobl yn y Gymraeg fel iaith fyw. Dengys tystiolaeth er enghraifft fod pobl sy'n ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o'i siarad yn rheolaidd, felly rhaid achub ar bob cyfle i sicrhau y gall pobl gymdeithasu drwy gyfrwng yr iaith. Er hynny, oni chynhelir y digwyddiadau diwylliannol hyn bydd effaith economaidd yn ogystal â diwylliannol a allasai yn ei dro danseilio cyfleoedd diwylliannol y dyfodol. Mae hyn yn wir wrth gwrs yng nghyd-destun digwyddiadau diwylliannol, celfyddydol a chwaraeon yn gyffredinol, ond pryderwn y gallasai'r effaith fod yn fwy hirdymor ar ddigwyddiadau Cymraeg oherwydd bod y farchnad, y niferoedd a'r cyfleoedd yn llai. Manylwn ar hyn ymhellach isod.

### Digwyddiadau

Mae'r holl ddigwyddiadau cenedlaethol, rhanbarthol a chymunedol yn y calendr Cymreig wedi eu gohirio am y dyfodol rhagweladwy. Digwyddiadau diwylliannol, amaethyddol a chymunedol o'r fath yw congfeini'r iaith Gymraeg. Maent yn cynnig cyfleoedd pwysig i bobl siarad yr iaith ac i atgyfnerthu eu hyder ynddi. Maent hefyd yn gyfleoedd i ddenu pobl ddi-Gymraeg at yr iaith ac i bobl sy'n ei dysgu i'w hymarfer. Mae cyfleoedd diwylliannol yn cynnig cyfle i bobl gymdeithasu a defnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus ac yn adlewyrchu bwrlwm iaith fyw. Ond rhaid cofio hefyd fod cyfleoedd diwylliannol yn y Gymraeg hefyd yn ffynonellau pwysig o incwm i nifer fawr o artistiaid, busnesau a chyflenwyr Cymreig sy'n gysylltiedig â chynnal y digwyddiadau hyn, ac yn cyflogi swyddogion sy'n eu trefnu. Er enghraifft, mae adolygiad o'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn 2013 yn dyfynnu ymchwil bod yr Eisteddfod yn creu incwm net (GVA) o rhwng £3-£4m, gan ddibynnu ar y lleoliad. Noda bod yr Eisteddfod "yn creu impact mwy mewn ardal wledig oherwydd y raddfa berthynol ac effeithiau cyfoeth yn lleol."<sup>2</sup> Bydd hyn yn arbennig o wir yn Nhregaron lle'r oedd yr ŵyl i'w chynnal eleni.

Mae gwefan yr Eisteddfod yn atgyfnerthu'r negeseuon am fuddion economaidd i'r ardaloedd y mae'r ŵyl yn ymweld â nhw: "Mae canran sylweddol o'r budd economaidd lleol a ddaw yn sgil yr Eisteddfod yn mynd i'r sector dwristiaeth a lletygarwch"<sup>3</sup>. Bydd gohirio Eisteddfod 2020 yn debygol o gael effaith andwyol ar y sector lletygarwch yng Ngheredigion a siroedd cyfagos Caerfyrddin a Phenfro.

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/gw-p-gorchwyl-a-gorffen-yr-eisteddfod-genedlaethol-adroddiad-ac-argymhellion.pdf>

<sup>3</sup> <https://eisteddfod.cymru/busnes/lletygarwch>



Ar 16 Mawrth, cyhoeddodd yr Urdd y bydd Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych yn cael ei gohirio tan 2021, ac y byddai'n cau tri gwersyll y mudiad, gan olygu "ergyd ariannol o bron i £4m" i'r Urdd<sup>4</sup>. Nododd Asesiad o werth economaidd Urdd Gobaith Cymru (2018) bod y mudiad wedi cynhyrchu gwerth economaidd o £25.5m yng Nghymru yn 2017-18. Roedd hyn yn cynnwys £5.5m yn ardal leol yr Eisteddfod yn 2018, a chyfanswm o £6.9m o werth economaidd yng Nghymru drwy'r gwersylloedd<sup>5</sup>. Mae gwersylloedd yr Urdd wrth gwrs hefyd yn cynnig cyfle pwysig i blant gymdeithasu yn y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, sy'n bwysig yn arbennig i blant o ardaloedd lle na siaredir y Gymraeg yn gymunedol neu sy'n dod o gefndiroedd di-Gymraeg. Nid yw'n glir pryd y bydd y gwersylloedd yn agor na sut y gwneir hynny. Mae hyn yn destun pryder o safbwynt y plant eu hunain ond hefyd o safbwynt sefyllfa economaidd yr Urdd a'i weithgareddau am y cyfnod sydd i ddod.

Mae'r gwyliau mawr hyn a'r gwyliau rhanbarthol llai yn gyrcfannau masnachu pwysig i nifer fawr o fusnesau Cymraeg a Chymreig. Dywedodd un perchennog busnes sy'n cynhyrchu nwyddau unigryw yn yr iaith Gymraeg wrthym y bydd effaith Covid-19 ar ei fusnes yn "hunllefus". Mae'r busnes hwn, fel nifer o fusnesau bach eraill, yn llwyr ddibynol ar ddigwyddiadau a gwyliau i werthu eu nwyddau ac i aros mewn busnes. Yn wahanol i siopau, ni fydd masnachwyr crefft o'r fath yn adennill eu marchnad unwaith y bydd y gwaharddiadau'n cael eu codi; a bydd eu ffynonellau incwm wedi diflannu'n llwyr am y flwyddyn. Cyfyd hyn gwestiynau am eu hyfywedd yn y tymor hir a hwythau yn darparu cyflogaeth i nifer o siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau ar hyd ac ar led Cymru. Mae'n deg dweud bod cyfleoedd digidol wedi datblygu wrth gwrs i roi llwyfan i nifer o'r masnachwyr a fyddai wedi cyflwyno eu cynnyrch yn y gwyliau hyn, megis @Crefftwyr Aberystwyth.

Ystyriaeth arall yw'r ffynonellau nawdd elusennol a phreifat sydd ar gael i hyrwyddo diwylliant a digwyddiadau Cymraeg ac sy'n ddibynol ar lwyddiant economaidd y cwmnïau a'r economi yn gyffredinol. Eto, mae'n ansicr sut y bydd y sefyllfa bresennol yn effeithio ar yr economi ond mae'n ymddangos y bydd effaith tymor byr o leiaf, os nad yn y tymor hir. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a darlledwyr cyhoeddus i sicrhau arlwy diwylliannol amgen yn ystod yr wythnosau yr oedd y gwyliau i fod i gael eu cynnal; ac mae'r Llywodraeth wedi addo cymorth ariannol o £800,000 i'w rannu rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen<sup>6</sup>. Mae nifer o wyliau wedi troi at gyfryngau digidol a dulliau eraill i roi llwyfan i'w dathliadau, megis Tafwyl<sup>7</sup> a gynhaliwyd yn ddigidol; Eisteddfod T<sup>8</sup> a gynhaliwyd ar S4C a BBC Radio Cymru ac Eisteddfod AmGen<sup>9</sup> sydd yn ddigidol, gan wneud hynny yn llwyddiannus a chan arddangos hyblygrwydd diwylliant Gymraeg a'i gallu i arloesi. Yn wir, gallasid dadlau bod cyfleoedd wedi ehangu i bobl fwynhau'r cyfraniadau yn ehangach oherwydd bod y cyfryngau digidol yn cyrraedd cynulleidfia ehangach a bod cofnod mwy parhaol ohonynt. Er

<sup>4</sup> <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/51908413>

<sup>5</sup> [https://www.urdd.cymru/f\\_iles/8015/4219/7322/Asesiad\\_Effaith\\_Economaidd\\_yr\\_Urdd\\_09.11.18\\_Cymraeg.pdf](https://www.urdd.cymru/f_iles/8015/4219/7322/Asesiad_Effaith_Economaidd_yr_Urdd_09.11.18_Cymraeg.pdf)

<sup>6</sup> <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/52387302>

<sup>7</sup> <https://tafwyl.org/cy/>

<sup>8</sup> <https://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/eisteddfod-t/>

<sup>9</sup> <https://eisteddfod.cymru/amgen>



hynny, er gwaethaf y llwyddiannau hyn a'u gallu i lenwi'r bwlch diwylliannol yn rhannol, ni fyddant yn gwneud iawn am yr ergyd economaidd a chymdeithasol a ddaw yn sgil gohirio'r eisteddfodau a'r gwyliau mawr eraill.

Wrth gwrs, nid dim ond digwyddiadau diwylliannol mawr megis yr eisteddfodau sydd wedi'u gohirio. Mae gwyliau a digwyddiadau llai, nifer ohonynt yn cael eu trefnu gan grwpiau o wirfoddolwyr sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn amrywio o gigs i wyliau bwyd i wyliau cerddorol a chelfyddydol a gwyliau amaethyddol bach a mawr wedi gorfod cael eu gohirio neu eu canslo yn llwyr. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnig cyfleoedd i bobl gymdeithasu a mwynhau diwylliant Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn denu pobl i ardaloedd ar hyd ac ar led Cymru gan gyfrannu at yr economi yn yr ardaloedd hynny drwy ddefnyddio cwmnïau lleol i gynnal eu hisadeiledd, ac yn rhoi marchnad i gwmnïau bach werthu eu nwyddau. Rhaid cofio efallai bod digwyddiadau casglu arian ar gyfer cynnal y digwyddiadau wedi gorfod cael eu gohirio hefyd a bod tywydd eithriadol y blynyddoedd diwethaf mewn sawl achos wedi tanseilio eu sefyllfa ariannol eisoes, fel yn achos yr Eisteddfod Genedlaethol wrth gwrs. Mae nifer o'r digwyddiadau hyn yn ddibynnol ar wirfoddolwyr yn ogystal. Yn wyneb ansicrwydd ynghylch sefyllfa ariannol rhai o'r digwyddiadau hyn i'r tymor canol a hwy mae'n bwysig sicrhau y bydd y digwyddiadau hyn yn parhau i'r dyfodol ac y bydd cefnogaeth i wirfoddolwyr wynebu sefyllfaoedd anodd. Mae nifer o'r gwirfoddolwyr hyn yn debygol o fod yn hŷn yn ogystal, a rhaid ystyried a fyddant hwy yn parhau i ddymuno bod yn rhan o'r digwyddiadau hyn i'r dyfodol. Byddem am weld y Llywodraeth a'i phartneriaid yn cydweithio â threfnwyr digwyddiadau lleol a chenedlaethol Cymreig a Chymraeg i gefnogi eu parhad ac i adnabod yr holl fusnesau sy'n sylweddol ddibynnol ar wyliau a digwyddiadau diwylliannol er mwyn canfod ffordd o'u cefnogi i oresgyn y cyfnod anodd hwn.

## Y celfyddydau

Eisoes mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi ei adroddiad ar effaith Covid-19 ar sector y celfyddydau yng Nghymru<sup>10</sup> felly rydych eisoes yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu'r sector. Nid yw'r adroddiad, er hynny, yn tynnu sylw at sefyllfa'r Gymraeg o fewn sector y celfyddydau. Mae dogfen Cymorth Datblygu Dwyieithrwydd yn y Celfyddydau<sup>11</sup> gan Gyngor Celfyddydau Cymru'n dyfynnu ystadegau sy'n dangos bod 81% o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn mynychu digwyddiadau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach, o'i gymharu â 77% o bobl nad ydynt yn deall Cymraeg. Mae hanner (49%) y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach, o gymharu â 37% o bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg; ac mae 36% o bobl sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn ymwneud yn wirfoddol â threfnu digwyddiad neu weithgaredd celfyddydol o'i gymharu â 15% o'r rhai heb ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Mae cwmnïau a chanolfannau celfyddydol yn hollbwysig i'r iaith Gymraeg ac yn cynnal y diwylliant Cymraeg mewn cymunedau ar draws Cymru.

<sup>10</sup> <https://senedd.cymru/laid%20documents/cr-ld13215/cr-ld13215%20-w.pdf>

<sup>11</sup> [https://arts.wales/sites/default/files/2019-10/Pecyn%20Cymorth%20%20Datblygu%20Dwyieithrwydd%20yn%20y%20Celfyddydau\\_0.pdf](https://arts.wales/sites/default/files/2019-10/Pecyn%20Cymorth%20%20Datblygu%20Dwyieithrwydd%20yn%20y%20Celfyddydau_0.pdf)



Fel y mae eich adroddiad yn nodi bydd effaith economaidd Covid-19 ar faes y celfyddydau yn sylweddol. Fel y nodwch, er bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi creu cronfeydd amrywiol ar gyfer sefydliadau celfyddydol ac unigolion<sup>12</sup> a bod Cynllun Cefnogi Busnesau Llywodraeth Cymru yn cynnig lefel o warchodaeth ariannol yn y tymor byr; mae pryder gwirioneddol am beth fydd yn digwydd i'r cwmnïau, y canolfannau a'r unigolion sy'n gweithio yn y maes yn y tymor canolig a'r hirdymor. Rydym yn bryderus am effaith hynny ar hyfywedd y Gymraeg fel cyfrwng diwylliant, a bywoliaeth nifer o siaradwyr Cymraeg. Rhannodd un cwmni theatr Cymraeg teithiol eu sefyllfa â ni gan ddweud eu bod wedi gorfod canslo un daith eisoes oherwydd y sefyllfa er eu bod yn gorfod anrhydeddu'r taliadau i'w holl contractwyr. Roeddynt am orfod canslo eu cynhyrchiad nesaf ar gyfer yr hydref gan ragweld na fyddai modd bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer trydydd cynhyrchiad chwaith ddechrau 2021. Buasai hynny yn golygu na fyddai incwm tocynnau wedi dod i mewn gyda'r cynhyrchiadau am y flwyddyn ariannol bresennol gan olygu colled o ragor na £50,000 i'r cwmni gan effeithio ar eu gwaith a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae pryder yn ogystal ynghylch effaith y clefyd ar batrymau cynulleidfaoedd ar gyfer y dyfodol. Maent yn nodi hefyd eu bod yn ymwybodol iawn o'u rôl fel cyflogwr staff craidd a chytundebol Cymraeg, a'u gwaith yn mynd â diwylliant Cymraeg i ardaloedd gwledig a threfol Cymru fel ei gilydd. Mae pryder pellach wrth gwrs oherwydd erbyn y bydd argyfwng drosodd mae'n bosibl y bydd pobl wedi gorfod gadael y sector hwn i chwilio am waith gan gollu cenhedlaeth o bobl sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y maes, neu y byddant wedi gadael y sector Cymraeg a/neu Gymru gan fod cyflogau uwch i'w cael mewn mannau eraill.

Yn gyffredinol cefnogwn argymhellion eich adroddiad, ond hoffem bwysleisio y dylid ystyried a fydd angen i'r sector Cymraeg ei iaith dderbyn rhagor o gefnogaeth oherwydd y cyfleoedd y mae'n eu cynnig i siaradwyr Cymraeg gymdeithasu yn y Gymraeg a'i phwysigrwydd er hybu hyfywedd iaith leiafrifol fel y Gymraeg yn ddiwylliannol ac yn economaidd.

### Y diwydiant llyfrau

Er bod mwy yn troi at ddarllen yn ystod y pandemig a bod darllen, fel ffilm a theledu isod, yn gymorth i iechyd meddwl pobl yn ystod y cyfnod hwn, mae'n gyfnod pryderus i'r cwmnïau a'r gweisg sy'n gyfrifol am gynhyrchu a gwerthu llyfrau Cymraeg. Mae'n galonogol yn ôl adroddiadau yn y wasg<sup>13</sup> bod cynnydd yn y nifer o lyfrau Cymraeg sy'n cael eu gwerthu ar y we, a bod cynnydd yn ogystal yn y nifer o e-lyfrau sy'n cael eu gwerthu. Er hynny nid yw hyn yn gwneud iawn am yfaith fod gwerthiant ar y cyfan wedi gostwng. Er bod rhai siopau a gweisg yn gwerthu drwy'r post ac ar eu gwefannau dywedodd cyfarwyddwr un wasg Gymraeg, sy'n cyflogi 22 o staff, eu bod nhw wedi colli hyd at 90% o'u hincwm ar ddechrau'r cyfnod clo oherwydd nad oeddent yn gallu cyhoeddi llyfrau o gwbl. Yn eu hachos hwy, fel yn achos nifer o weisg eraill, byddai'r eisteddfodau wedi bod yn lle pwysig i werthu llyfrau. Mae'r ffaith bod papurau bro wedi naill ai roi'r gorau i gyhoeddi neu yn cyhoeddi'n ddigidol yn unig yn golygu bod gweisg yn colli ffynhonnell gyson o waith argraffu; yn ogystal â bod rhai darllenwyr sydd ddim â chyswllt â'r we yn

<sup>12</sup> <https://arts.wales/cy/ariannu/coronafeirws>

<sup>13</sup> <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/53064380>



cael eu hamddifadu ohonynt. Mae'r Cyngor Llyfrau wedi cyhoeddi £150,000 gan Lywodraeth Cymru i helpu'r sector llyfrau yn ystod yr argyfwng coronafeirws presennol. Ar wefan y Cyngor Llyfrau ceir manylion y siopau llyfrau Cymraeg sy'n gwerthu ar-lein ac mae modd prynu llyfrau Cymraeg ar wefan gwales.com gan roi'r comisiwn i siop lyfrau o ddewis y prynwr. Er hynny, yn sgil colli cyfleoedd gwerthiant hollbwysig yr eisteddfodau mae angen sicrhau na fydd yr argyfwng yn effeithio yn y tymor hir ar y diwydiant llyfrau Cymraeg.

### Y cyfryngau darlledu

Mae rôl y cyfryngau yn ystod yr argyfwng wedi bod yn allweddol bwysig ac mae'r angen am eitemau ac adnoddau Cymraeg yn fwy amlwg nag erioed wrth i nifer fawr weithio a gofalu gartref. Fel y nodwyd eisoes mae'r cyfryngau Cymraeg wedi ymateb yn gadarnhaol i'r sefyllfa sydd ohoni gyda mentrau ar y cyd rhwng yr eisteddfodau a S4C a BBC Cymru megis Eisteddfod T. Maent hefyd wedi rhannu adnoddau addysgol Cymraeg i helpu rhieni addysgu eu plant gartref, gan gefnogi plant o bob cefndir, ond yn arbennig y rhai hynny sydd o gefndiroedd lle na siaredir y Gymraeg. Er enghraifft lansiodd S4C Ysgol Cyw i gefnogi dysgu gartref ac mae wedi rhyddhau llawer o ddeunydd o'r archif. Mae'n drawiadol bod nifer gwylio cyfartalog rhaglenni plant S4C wedi codi 182%. Ym mis Ebrill cyhoeddodd S4C y bwriad i gomisiynu degau o raglenni unigol a chyfresi newydd gwerth sawl miliwn i'w darlledu cyn diwedd mis Gorffennaf<sup>14</sup>. Mae hefyd wedi cyflogi dau newyddiadurwr digidol<sup>15</sup> i geisio darparu gwasanaeth newyddion sy'n ymateb i'r pandemig ar dudalen Facebook a Twitter Newyddion S4C ac fe ddarledodd y ddrama Covid-19 gyntaf sydd wedi ei ffilmio ar liniaduron a ffonau symudol<sup>16</sup>. Mae'n bwysig dysgu gwersi o'r cyfleoedd hyn ar ôl i'r argyfwng ddod i ben.

Er hynny, mae'n anorfod fod y sefyllfa wedi cael effaith ar y diwydiant darlledu ac mae newidiadau wedi gorfod cael eu gwneud i amserlenni darlledu yn y tymor byr. Mae hyn wedi cael effaith ar gwmnïau cynhyrchu oherwydd bu'n rhaid rhoi'r gorau i ffilmio rhai rhaglenni yn sgil y cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol ac mae ansicrwydd ynghylch amgylchiadau ailgydio mewn cynrychiadau pan fydd modd gwneud hynny, yn ogystal â chostau cysylltiedig â ffilmio yn yr amgylchiadau hynny. Er enghraifft rhoddwyd y gorau i ffilmio cyfresi drama poblogaidd *Pobl y Cwm* a *Rownd a Rownd*, gyda'r cyntaf yn rhaglen a ddarperir i S4C gan y BBC yn sgil Deddf Darlledu 1990 sy'n mynnu bod y BBC yn darparu dim llai na 520 awr o gynnwys i S4C bob blwyddyn. Eifen arall a ddarperir gan y BBC i S4C yw darlledu o'r Eisteddfod Genedlaethol gan ddarparu 80 awr o ddarlledu allan o'r 520 o'r fan honno yn unig mewn wythnos ddechrau mis Awst fel arfer.

Fel yn achos gweithwyr yn sector y celfyddydau, mae nifer fawr o weithwyr y diwydiant teledu yn llawrydd, ac yn gorfod dibynnu ar gymorth y Lywodraeth i'r hunangyflogedig yn ystod y cyfnod hwn. Yn hyn o beth dylid nodi fod adroddiad blynyddol S4C ar gyfer 2018-19<sup>17</sup> yn egluro bod 44% o wariant S4C yn digwydd yng ngogledd a gorllewin Cymru, sy'n ardaloedd sydd o dan anfantais economaidd. Dyma hefyd yr ardaloedd lle mae dwysedd

<sup>14</sup> <http://www.s4c.cymru/cy/y-wasg/post/37317/s4c-yn-cyhoeddi-degau-o-gomisiynau-newydd/>

<sup>15</sup> <http://www.s4c.cymru/cy/y-wasg/post/37297/newyddiadurwyr-digidol-s4c-yn-dod-r-diweddaraf-ar-sefyllfa-covid-19/>

<sup>16</sup> <http://www.s4c.cymru/cy/y-wasg/post/37264/s4c-ar-y-blaen-wrth-ddarlledu-drama-cyf-nod-covid/>

<sup>17</sup> [https://dlo6cyw1kmb.cloudfront.net/media/media\\_assets/s4c-adroddiad-blyn-2018-19.pdf](https://dlo6cyw1kmb.cloudfront.net/media/media_assets/s4c-adroddiad-blyn-2018-19.pdf)



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae'n bryder yn ogystal y bydd y celfyddydau a'r cyfryngau Cymraeg yn colli unigolion dawnus a phrofiadol i farchnad Saesneg maes o law wrth i weithwyr ac artistiaid geisio gwneud iawn am y cyflog a gollwyd yn ystod y cyfnod clo. Rhaid sicrhau na fydd y sefyllfa bresennol yn peryglu eu bywoliaeth ac y byddant yn gallu parhau i weithio yn y sector Cymraeg.

### Chwaraeon

Mae'r ymchwil a gasglwyd wrth lunio prosiect Y Gymraeg: Amdani!<sup>18</sup> Comisiynydd y Gymraeg wedi amlygu nad oes digon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg a bod pobl ifanc yn awchu am fwy. Mae'r Urdd yn chwarae rôl allweddol wrth gwrs ond fe roddwyd her i gymdeithasau chwaraeon i gydio yn y cyfle i ddatblygu'r cyfleoedd ledled Cymru. Er gwaethaf ymdrechion fy swyddfa wrth gynnig adnoddau, cymorth ac enghreifftiau o arfer da, mae'r teimlad yn parhau bod y ddarpariaeth yn anghyson a chyfleoedd yn cael eu colli. Mae angen arweiniad a buddsoddiad gan Chwaraeon Cymru ac eraill, fel bod y sector yn cyfrannu'n rhagweithiol tuag at amcanion strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Wrth i'r sector chwaraeon ailgychwyn yn dilyn Covid-19 ac fel rhan o'r fframwaith buddsoddi newydd, dyma gyfle arbennig i ystyried anghenion aelodau a chwaraewyr ledled Cymru ac i ddatblygu ffyrdd newydd o gynnal gweithgareddau yn naturiol yn y Gymraeg.

Rhaid pwysleisio bod gwersi pwysig i'w dysgu o sut y mae diwylliant Cymraeg wedi addasu a bod yn greadigol yn wyneb heriau'r pandemig. Er hynny, fel y dywedais ar ddechrau'r llythyr, megis dechrau amgyffred effeithiau'r pandemig yr ydym ni. Nid wyf er enghraifft wedi trafod effeithiau posibl y cyfnod clo hwn ar wasanaethau Cymraeg, ar bwysigrwydd y defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith, ar ofal plant ac addysg Gymraeg, nac ar gymunedau Cymraeg sy'n ddibynnol ar dwristiaeth ac ar amaeth. Wrth imi ddod yn fwy ymwybodol o effeithiau pellach byddaf yn cysylltu â chi eto yn ôl yr angen. Er hynny, mae'n amlwg bod yr argyfwng yn cael effaith pellgyrhaeddol ar bob elfen sy'n bwysig i hyfywedd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yr iaith Gymraeg ac ar y pethau hynny sy'n cyfrannu tuag Cymraeg 2050. O ganlyniad i hynny, gofynnaf i'r Pwyllgor ystyried cynnal ymchwiliad penodol ar effaith Covid-19, a chyfnodau nesaf yr argyfwng ar y Gymraeg er mwyn sicrhau y byddwn yn dysgu gwersi wrth edrych tua'r dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,

**Aled Roberts**  
Comisiynydd y Gymraeg

<sup>18</sup> <http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/hybu/cy/canllawiau/Pages/amdani!.aspx>